## Mae nam ar y clyw yn cael effaith sylweddol ar ddatblygiad disgybl:

- oedi mewn datblygu iaith;
- geirfa gyfyngedig;
- cyfathrebu ag eraill;
- eglurder iaith lafar;
- iaith ysgrifenedig;
- sgiliau cymdeithasol;
- datblygiad emosiynol;
- hunanhyder a hunanwerth

**Strategaethau i Gynorthwyo Dysgwr sydd â nam ar ei glyw**

- **Safle eistedd ffafriol -** nid yw rhai dysgwyr yn hoffi eistedd yn y blaen ond mae angen iddynt fod yn agos at y blaen, gyda ffrind.
- **Ennyn sylw'r dysgwr** cyn i wybodaeth bwysig gael ei rhoi.
- **Cyfyngu ar sŵn cefndirol** – gan offer ac ati.

Cyfrifiaduron, dodrefn a sgwrsio disgyblion yn y dosbarth. Mae cymhorthion clyw yn ymchwyddo **pob** sain.

- **Siaradwch yn glir** ac yn araf deg.
- **Caniatewch ragor o amser i ddysgwyr feddwl a siarad.**
- **Ailadroddwch bob cyfraniad** gan ddisgyblion eraill yn ystod trafodaethau dosbarth gan nad yw cymhorthion clyw yn effeithiol y tu hwnt i ardal benodol.
- **Gwiriwch** o bryd i'w gilydd fod gwybodaeth sydd wedi cael ei rhoi ar lafar wedi cael ei deall.

- **Defnyddiwch gymorth gweledol** lle bynnag y bo hynny'n bosibl

- **Peidiwch siarad ac ysgrifennu'r un pryd.** Mae angen i ddisgyblion weld eich wyneb.
- **Peidiwch ddiffodd y golau** cyn i chi roi cyfarwyddiadau llafar.
- **Peidiwch wneud i ddysgwr ganolbwyntio ar ddarllen gwefusau** am gyfnod hir heb doriad**.**
- **Peidiwch orlwytho dysgwr â gormod o gyfarwyddiadau llafar.**
- **Peidiwch â disgwyl ateb yn syth** - arhoswch
- **Peidiwch â barnu fod gan ddisgybl wybodaeth benodol,** yn enwedig wrth drafod geirfa anghyffredin. Gwiriwch beth y maent yn ei wybod yn gyntaf.
- **Cofiwch na all dysgwyr byddar ddeall gwybodaeth glywedol yn yr**

**un modd â disgyblion sydd yn**

**gallu clywed** e.e. y teledu.

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL**

# NAM AR Y CLYW - EFFAITH

## ADRAN DYSGU

**YDI'CH YSGOL CHI'N ADDAS AR GYFER DYSGWYR BYDDAR?**

Meddyliwch am anghenion dysgwyr byddar yn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth a sicrhewch eu bod yn cael eu cynnwys a'u bod yn dilyn pob dim sydd yn digwydd e.e. digwyddiadau, jôcs. Ceisiwch fod yn hyblyg yn eich dysgu a defnyddiwch amrywiaeth o dechnegau a dulliau dysgu.

Byddwch yn ymwybodol o sŵn cefndirol (y tu fewn a'r tu allan) gan y gall hyn effeithio ar gyfathrebiad y dysgwr.

**Rhif Cyswllt**
Adran Dysgu
Canolfan Dinesig
Merthyr Tudful
CF47 8AN
Ffôn: - 01685 724642

**Anogwch bawb sydd yn rhan o fywyd beunyddiol yr ysgol i fod yn ymwybodol o effeithiau nam ar y clyw.**